# WILLIAMS, GWILYM IEUAN (1879 - 1968), gweinidog (MC)

**Enw:** Gwilym Ieuan Williams
**Dyddiad geni:** 1879
**Dyddiad marw:** 1968
**Priod:** Phyllis Williams (née Roberts)
**Rhiant:** John Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC)
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yng Nghaerdydd 3 Hydref 1879, mab John Williams a'i briod, ill dau o Sir Feirionnydd. Ar ôl gadael yr ysgol bu'n gweithio mewn swyddfa longau, ond ymhen ychydig flynyddoedd dechreuodd bregethu yn eglwys Heol y Crwys. Addysgwyd ef yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd (lle graddiodd gydag anrhydedd mewn Saesneg), ac yng ngholegau diwinyddol ei enwad yn Nhrefeca ac Aberystwyth. Ordeiniwyd ef yn 1909 a bu'n gweinidogaethu yn y Tabernacl, Ceinewydd (1908-20). Yn ystod y tymor yma bu'n gaplan yn y fyddin, gan wasanaethu yn yr Aifft a Phalesteina. Yn 1920 fe'i galwyd i eglwys T rgwyn, Bangor, ac yno y bu hyd 1966. Priododd, 1939, Phyllis Roberts o Fangor. Bu farw 1 Chwefror 1968. Aed â'i lwch o Amlosgfa Bae Colwyn i feddrod y teulu ym mynwent Cathays, Caerdydd.

Yr oedd yn r eang ei ddiwylliant a'i ddiddordebau, a bu'n amlwg ym mywyd ei Gyfundeb. Bu'n llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1948), ac yn llywydd Sasiwn y Gogledd (1956). Bu hefyd yn gadeirydd y Symudiad Ymosodol, ac yn gadeirydd Pwyllgor Mawl ei Gyfundeb. Ymddiddorodd yn fawr mewn emyn a thôn, a bu'n cydweithio ag Evan Thomas Davies yn cyfieithu a threfnu amryw o gantawdau J. S. Bach, megis *Aros di gyda ni* (1919), *Amser Duw, goreu yw* (1922), *Iesu dyrchafedig* (1922), a'r *Short Passion (St. Matthew's Gospel)* (1931, 1932 ac 1933). Bu Dyfed (Evan Rees,) yn lletya yng nghartref ei rieni, a dysgodd yntau'r cynganeddion ganddo, gan lunio aml englyn, &c. Ysgrifennai'n achlysurol i'r *Drysorfa* a'r *Goleuad*. Bu'n aelod blaenllaw o gymdeithas y Rotariaid; bu'n llywydd cylch Merswy a gogledd Cymru, gan gynrychioli'r gymdeithas mewn cynadleddau yn America (1936) a Nice (1937).

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1969, 309-10

*Y Drysorfa*, 1948, 143-45, 1956, 51-3

T. Bowen, *Dinas Caerdydd a'i Methodistiaeth Calfinaidd (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)* (Caerdydd 1927), 60

gwybodaeth gan Glenys Hughes Jones, Pen-y-groes, Arfon a Derwyn Jones, Bangor

adnabyddiaeth bersonol


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733123


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu